

---

# CIPIO DARLITHOEDD GYDA PANOPTO

Mae Prifysgol Aberystwyth yn disgwyl bod pob darlith yn cael ei recordio ac ar gael i fyfyrwyr. Mae'r [Polisi Cipio Darlithoedd](#) yn rhoi canllawiau am yr hyn sy'n cael ei ddiffinio fel darlith.

Mae'r Brifysgol yn darparu meddalwedd Panopto er mwyn hwyluso recordio yn y dosbarth. Mae'n creu pecyn integredig sy'n cynnwys sain, PowerPoint a deunyddiau eraill a ddefnyddir wrth daflunio data yn yr ystafell ddosbarth, ac yn integreiddio â Blackboard er mwyn helpu i reoli'r mynediad at recordiadau. Gellir cynnwys cysylltiadau i'r recordiadau yn Blackboard neu eu rhoi i'r myfyrwyr yn uniongyrchol. Gall myfyrwyr neidio'n rhwydd i'r rhan berthnasol o recordiadau darlithoedd ac adolygu cysyniadau anodd gynifer o weithiau a ddymunir.

## SUT MAE RECORDIO GAN DDEFNYDDIO PANOPTO?

### SUT MAE AGOR PANOPTO?

Mae Panopto yn agor yn awtomatig wrth fewngofnodi i beiriannau dysgu, a gellir ei agor hefyd drwy glicio ar yr eicon Panopto ar y bwrdd gwaith.

Darllenwch Ganllawiau Cydymffurfio Panopto a thiciwch **I Agree** a chlicio ar **Next**:



# PANOPTO

I have read and understood the compliance guidelines relating to lecture capture.

[Abercast Compliance Guidelines](#)

I can confirm that all necessary permissions have been granted for the use of any third party copyright materials included in the presentation and that all identifiable individuals have given their consent to appearing in, and/or contributing to, the recording.


I Agree

Next Cancel

- Dad-diciwch **Remember me** a mewngofnodwch gan ddefnyddio eich enw enw defnyddiwr PA a'ch cyfrinair.
- Fe'ch trosglwyddir i Panopto er mwyn dechrau recordio.

## SUT MAE DEWIS Y MODIWL Y DYMUNAF RECORDIO DARLITH AR EI GYFER?


Wrth i Panopto agor, dewiswch y modiwl y dymunwch recordio'r ddarlith ar ei gyfer o'r ddewislen sy'n ymddangos. Y modiwl diofyn yw'r modiwl diwethaf y gwnaethoch recordio iddo.



Dyddiad ac amser y recordiad fydd yn cael ei osod yn ddiodyn fel enw'r recordiad. Cliciwch arno ddwywaith i newid yr enw i rywbeth mwy ystyrlon. Os na allwch ddod o hyd i'r modiwl rydych yn chwilio amdano, dewiswch unrhyw fodiwl (gweler y cyfarwyddiadau ynglŷn â sut i newid modiwlau yn ddiweddarach).

## PA OSODIADAU DDYLWN I EU DEFNYDDIO?

Mae'r gosodiadau a ddefnyddir yn dibynnu ar yr hyn y dymunwch ei recordio. Gellir eu newid drwy ddefnyddio'r ddewislen sy'n ymddangos ar ochr chwith y sgrîn:



I recordio sleidiau a sain, dewiswch y gosodiadau canlynol:

**Sain:** Dewiswch *Neck Mic* o'r ddewislen sy'n ymddangos wrth ymyl Sain. Gweler isod er mwyn gweld sut i gadarnhau lefel y sain ar gyfer recordio.

**Cipio PowerPoint neu Brif Sgrîn y Cyfrifiadur:** Ewch i **Secondary Sources** a dewis **Capture PowerPoint** (os mai PowerPoint yn unig sy'n cael ei ddefnyddio) neu **Capture Main Screen** (os ydych am ddangos rhywbeth arall ar y monitor).

Ceir dewisiadau i recordio gwahanol fathau o borthiad fideo a sain y gellir hefyd eu newid yn y gosodiadau hyn. Mae'r dewisiadau sydd ar gael yn dibynnu ar yr offer yn yr ystafell ddysgu. Mae'r porthiad fideo yn cynnwys:

<b>Math</b>	<b>Enw</b>	<b>Yr hyn sy'n cael ei recordio</b>
Gwe-gamera	Dyfais Fideo USB Gwe-gamera	Gellir ei ddefnyddio i recordio'r cyflwynydd os yw'n sefyll yn union o flaen y peiriant. Defnyddiwch y ffenestr ragolwg i weld beth sy'n cael ei recordio.
Camerâu Dogfen	<i>Samsung Digital Presenter</i> <i>ELM-0 UVC</i>	Gellir eu defnyddio i recordio eitemau, fel diagramau neu wrthrychau a gellir newid yr ongl er mwyn recordio onglau eraill.
Camerâu sy'n chwyddo, panio a mynd ar ogwydd	Osprey-260 e fideo Dyfais 1	Ar gael mewn ambell ystafell ddarlith fawr. Maent wedi'u gosod yng nghefn yr ystafelloedd ac yn cael eu defnyddio i recordio'r cyflwynydd a'r sleidiau sy'n cael eu defnyddio.

Mae'r porthiad sain yn cynnwys:

Math	Enw	Yr hyn sy'n cael ei recordio
Meicroffon o amgylch y gwddf ( <i>Neck Mic</i> )	<i>Neck Mic (Solo Desktop)</i>	Anogir darlithwyr i wisgo Meicroffonau o amgylch y Gwddf wrth ddysgu.
Mic Gwe-Gamera	Mic Gwe-Gamera (Dyfais Sain USB)	Mae meicroffonau ar gyfer y rhain hefyd. Peidiwch â'u defnyddio gan nad yw'r sain yn glir iawn.
Meicroffonau ar y bwrdd gwaith ( <i>Desk Mic</i> )	<i>Audio 1 balanced</i>	Mae'r rhain wedi'u gosod ar y bwrdd gwaith ac yn codi rhywfaint o sain o bellter.


#### SUT MAE CYNNAU MEICROFFON GWDDF?

- Tynnwch ef o'r orsaf wefru
- Gwasgwch y botwm llwyd ar flaen y meicroffon er mwyn i'r meicroffon fflachio'n wyrdd
- Rhowch y meicroffon am eich gwddf gan ddefnyddio'r llinyn

Ar ddiwedd y ddarlith, dychwelwch y meicroffon i'r orsaf wefru.

#### SUT MAE GWIRIO LEFELAU'R SAIN?

Cyn i chi ddechrau recordio eich darlith, gwiriwch lefelau sain y recordiad drwy dapio ar waelod y meicroffon. Os oes tri neu ragor o farrau sain wedi'u goleuo, gallwch ddechrau recordio:



#### SUT MAE RECORDIO

Ar ôl i chi gadarnhau bod y gosodiadau yn gywir a'ch bod yn fodlon â nhw, gallwch ddechrau recordio.

- Agorwch y cyflwyniad PowerPoint



- Gwasgwch y symbol **Record** a lleihau sgrîn y recordydd
- Dylai'r sesiwn fod yn recordio bellach
- Os cychwynnch PowerPoint drwy'r recordydd gallwch ddewis dechrau recordio yn awtomatig ai peidio wrth i PowerPoint gychwyn. Bydd hyn yn osgoi'r eiliadau cyntaf o'r recordiad yn dangos y trosglwyddo o'r recordydd i PowerPoint.



- Os oes rhan o'r ddarlith na ddimunwch ei recordio, gwasgwch y symbol




- Ar ôl i chi orffen y ddarlith, dewiswch **Stop**
- Bydd ffenestr yn agor. Gallwch ddewis newid Enw'r Sesiwn ac ychwanegu disgrifiad.
- Os ydych yn hapus, gallwch llwytho'r recordiad – cliciwch **Upload**. Nawr gallwch allgofnodi o'r cyfrifiadur, gan y bydd yn llwytho yn awtomatig.
- Mae'r recordiad yn llwytho i'r gweinydd ac yn cysylltu â'r modiwl ar Blackboard.
- Byddwch yn derbyn cadarnhad drwy e-bost ar ôl i'r ddarlith llwytho.

## SUT MAE CYSYLLTU Â RECORDIAD YN ARDAL GYNNWYS MODIWL BLACKBOARD?


- Mewngofnodwch i [Blackboard](#) ac ewch i'r modiwl y recordiwyd ynddo a sicrhau bod **Edit Mode On**
- Ewch i'r ardal gynnwys lle dymunwch osod dolen gyswllt i'r recordiad
- Cliciwch ar **Tools** yn yr ardal Adeiladu Cynnwys a dewis **Panopto Video Link**

Learning Materials ▾

Build Content ▾ Assessments ▾ Tools ▾

 **Session 1**

---

 **Week 1**  
All teaching and learning mat

Discussion Board

Blogs

Journals

Groups

Tools Area

McGraw-Hill Content

Facebook Likebox

Twitter Feed

Achievements

**Panopto Video Link**

---

More Tools >

- O dan **Folder** cliciwch ar y ddewislen sy'n ymddangos a dewis y modiwl y mae'r recordiad ynddo
- Dewiswch y Ddarlith/recordiad y dymunwch gysylltu â hi/ef
- Rhowch deitl i'r eitem
- Gwasgwch **Submit** ac **OK**
- Mae dolen gyswllt bellach wedi'i gosod yn yr ardal gynnwys

## SUT MAE GWYLIO RECORDIAD?

Gellir gwyllo'r rhan fwyaf o recordiadau darlithoedd drwy'r modiwl perthnasol yn Blackboard:

- Mewngofnodwch i [Blackboard](#) gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr PA a'ch cyfrinair.
- Ewch i'r modiwl perthnasol a restrir o dan **My Modules**
- Cliciwch ar yr adran sy'n cynnwys y recordiadau (e.e. **Deunyddiau Dysgu**).
- Cliciwch ar y ddolen sy'n cysylltu â'r ddarlith y dymunwch ei gwyllo. Bydd eicon Panopto yn ymddangos wrth ymyl pob recordiad:




- Bydd y recordiad yn agor mewn ffenestr newydd.
- Os gofynnir am eich enw defnyddiwr a chyfrinair, defnyddiwch y ddewislen sy'n ymddangos a dewis **Sign in with Blackboard**.

- Gan ddibynnu ar y modiwl, mae'n bosib y byddwch hefyd yn gallu gwyllo'r holl recordiadau darlith sydd ar gael ar gyfer modiwl drwy fynd i **Tools** yn y ddewislen gyrsiau a chlicio ar **Panopto Content**.

## SUT MAE GOLYGU RECORDIAD?

I olygu recordiad (rhaid bod Microsoft Silverlight wedi'i osod ar eich peiriant):

- Ewch i <https://abercast.aber.ac.uk/>
- Dewiswch **Sign in using Blackboard**, o'r ddewislen sy'n ymddangos, a chliciwch **Sign in**
- Rhowch eich enw defnyddiwr Aberystwyth a'ch cyfrinair
- Chwiliwch am y ffolder sy'n cynnwys y recordiad o'r ddarlith a chwilio am y recordiad
- Dewiswch **Edit** ar y recordiad y dymunwch ei newid:





submit-turnitin-en


2 months ago in BB-AU-0006: Enhancing Learning with Technology

Settings Share Edit Stats Delete

- Bydd ffenestr newydd yn agor, yn nodi llinell amser y fideo ar waelod y sgrîn, lle gallwch olygu'r recordiad:



- I ddileu adrannau ar ddechrau ac ar ddiwedd recordiad, llusgwch yr eicon hwn, , i'r man y dymunwch i'r recordiad ddechrau / gorffen.

- I ddileu peth cynnwys o ganol recordiad, dewiswch yr eicon hwn  a sgrolio'r llinell amser ar waelod y recordiad i'r rhan y dymunwch ei dileu, a chlicio

- Bydd y clic cyntaf yn gosod y man cychwyn. Bydd symud y llygoden i'r dde yn rhagwyllo'r hyn fydd yn cael ei dorri. Cliciwch eto i osod y man gorffen (gellir addasu'r segment drwy lusgo'r dolenni i'r naill gyfeiriad a'r llall).
- Pan fyddwch yn fodlon â'ch golygiadau, cliciwch **Publish**.

## SUT MAE DOD O HYD I RECORDIAD SYDD AR GOLL?

Os nad oes recordiad mewn modiwl, edrychwch i weld a yw wedi ei lwytho i ffolder modiwl arall neu flwyddyn arall ar gyfer y modiwl hwnnw. Dim ond ar gyfer y modiwlau rydych yn hyfforddi arnynt y dylai fod gennych mynediad.

I symud recordiad sydd wedi'i osod yn rhywle ar gam, gweler y cyfarwyddiadau isod ynglŷn â sut i symud recordiad i fodiwl gwahanol. Os na allwch ddod o hyd i recordiad, cysylltwch â'r Grŵp E-ddysgu, [elarning@aber.ac.uk](mailto:elarning@aber.ac.uk) / 01970 62 2472.

## SUT MAE CADARNHAU BOD MYFYRIWR YN GALLU GWELD RECORDIAD?

Os na all myfyriwr weld recordiad Panopto, cadarnhewch:

- Eich bod chi yn gallu cael mynediad at y recordiad
- Bod y myfyriwr wedi'i gofrestru ar y modiwl y mae'r recordiad ynddo
- Bod y gosodiadau caniatâd cywir wedi'u nodi ar gyfer y recordiad

Os nad yw'r myfyriwr yn gallu gweld y recordiad o hyd, cysylltwch â'r Grŵp E-ddysgu, [elarning@aber.ac.uk](mailto:elarning@aber.ac.uk) / 01970 62 2472, gan roi mewngofnod y myfyriwr a dolen gyswllt i'r recordiad Panopto nad ydynt yn gallu cael mynediad ato.

## SUT MAE RHEOLI RECORDIADAU AR GYFER MODIWLAU RHIAINT / PLENTYN?

Modiwlau sydd wedi'u cysylltu yn Blackboard yw modiwlau Rhiant a Phlenty. Bydd newidiadau sy'n cael eu gwneud i fodiwl Rhiant yn ymddangos yn y modiwl Plenty perthnasol. Bydd y recordiadau sy'n cael eu gwneud yn y modiwl Rhiant yn ymddangos yn awtomatig yn y modiwl Plenty perthnasol.

## SUT MAE NEWID Y GOSODIADAU CANIATÁU RHANNU AR GYFER FY RECORDIAD?

I newid pwy all wyllo diweddariad o'r recordiad, diweddardwch y gosodiadau caniatâd:

- Ewch i <https://abercast.aber.ac.uk/>
- Dewiswch **Sign in using Blackboard**, o'r ddewislen sy'n ymddangos, a chlicio **Sign in**
- Rhowch eich enw defnyddiwr Prifysgol Aberystwyth a'ch cyfrinair
- Chwiliwch am y ffolder sy'n cynnwys y recordiad a dewch o hyd i'r recordiad penodol




- Dewiswch **Share** ar y recordiad penodol y dymunwch wirio neu newid y gosodiadau caniatâd ar gyfer gwyllo
- Gellir newid y gosodiadau caniatáu rhannu o dan **Who has access**. Bydd yn dangos lefel gyfredol mynediad ar gyfer recordiad

Math o fynediad	Gan bwy mae mynediad?
Pobl benodol	Defnyddwyr a grwpiau penodol yn unig all wyllo. Fe'i defnyddir ar gyfer recordiadau darlith er mwyn i'r bobl hynny yn unig sydd wedi'u cofrestru ar fodiwl allu gwyllo recordiad.
Unrhyw un yn eich sefydliad â'r ddolen gyswllt	Gall unrhyw un ym Mhrifysgol Aberystwyth sydd â'r ddolen gyswllt wyllo'r recordiad.
Unrhyw un yn eich sefydliad	Gall unrhyw un ym Mhrifysgol Aberystwyth ddod o hyd i'r recordiad a'i gwyllo drwy abercast.aber.ac.uk
Unrhyw un â'r ddolen gyswllt	Gall unrhyw un, yn cynnwys pobl nad ydynt yn aelodau o'r Brifysgol, wyllo'r recordiad drwy'r ddolen sy'n cysylltu â'r recordiad. Ni fydd angen i'r gwylwyr nodi enw defnyddiwr a chyfrinair.
Cyhoeddus ar y we	Gall unrhyw un ar y Rhyngrwyd ddod o hyd i'r recordiad a'i wyllo. Ni fydd angen enw defnyddiwr a chyfrinair ar y gwylwyr.

- Ar ôl i chi newid y gosodiadau caniatâd ar gyfer recordiad, cliciwch **Save Changes**.

## SUT MAE COPIÖ RECORDIAD?

- Ewch i <https://abercast.aber.ac.uk/>
- Dewiswch **Sign in using Blackboard** o'r ddewislen sy'n ymddangos a cliciwch **Sign in**
- Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr Prifysgol Aberystwyth a'ch cyfrinair
- Dewiswch y modiwl y mae'r recordiad gwreiddiol ynddo o'r ddewislen ar y chwith a cliciwch i agor y recordiadau o'r modiwl hwnnw
- Dewch o hyd i'r recordiad y dymunwch ei gopïo
- Hofrannwch y cyrchwr o dan y recordiad y dymunwch ei gopïo



submit-turnitin-en (copy)

2 months ago in prac-0265: Jim's Practice Course


Settings Share Edit Stats Delete

- Dewiswch **Settings, Manage**, ac o dan **Copy Session**, teipiwch deitl newydd ar gyfer y sesiwn neu adael y teitl diodyn ar ei gyfer.
  - Cliciwch **Copy** ac **OK**
- Gellir wedyn symud y copi o'r recordiad i ffolder modiwl arall, gweler isod.

## SUT MAE SYMUD RECORDIAD I FODIWL ARALL?

I symud recordiad i fodiwl arall, rhaid bod gennych fynediad fel hyfforddwr Blackboard ar gyfer y modiwl y mae'r recordiad ynddo a'r modiwl y dymunwch symud y recordiad iddo.

- Ewch i <https://abercast.aber.ac.uk/>
- Dewiswch o'r ddewislen sy'n ymddangos **Sign in using Blackboard** a chlicio **Sign in**
- Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr Prifysgol Aberystwyth a'ch cyfrinair
- Dewiswch y modiwl y mae'r recordiad gwreiddiol ynddo o'r ddewislen ar y chwith a chliciwch i agor y recordiadau o'r modiwl hwnnw
- Chwiliwch am y recordiad y dymunwch ei symud a hofran y cyrchwr o dan y recordiad



submit-turnitin-en (copy)

2 months ago in prac-0265: Jim's Practice Course

Settings Share Edit Stats Delete

- Dewiswch **Settings**
- Dewiswch **Edit** wrth ymyl Teitl y Modiwl yn y maes **Folder**:

Folder **prac-0265: Jim's Practice Course** Edit

- Dewiswch y modiwl y dymunwch symud y recordiad iddo
- Cliciwch **Save**

Folder  Save Cancel

- Mae'r recordiad wedi symud i ffolder wahanol

## SUT MAE RHANNU RECORDIADAU PANOPTO Â MODIWL AU ERAILL YN BLACKBOARD?

Ewch i'r modiwl y dymunwch rannu recordiad ag ef a dewis:

- **Tools**
- **Panopto Content**

You can update the folders configured for this course in Panopto.

Re-Configure

- Dewiswch
- Chwiliwch am y modiwl y dymunwch wyllo'r recordiadau ar ei gyfer a chlicio **Add**. Bydd y recordiadau yn y modiwl hwnnw hefyd yn cael eu rhannu â'r modiwl rydych ynddo ar hyn o bryd.



## SUT MAE DEFNYDDIO PANOPTO AR GYFER ASESIADAU?

Mae ffolderi â mynediad cyfyngedig yn ddefnyddiol ar gyfer recordio cyflwyniadau ac arholiadau llafar drwy Panopto. Aelodau penodol o staff yn unig all gael mynediad at ffolderi Asesu Panopto. Ni all myfyrwyr weld cynnwys ffolderi Asesu. Mae dwy ran i'r broses hon:



- Creu ffolder asesu drwy Blackboard **NEU** Panopto
- Recordio'r asesiad yn Blackboard

## I GREU FFOLDER ASESU GAN DDEFNYDDIO BLACKBOARD

- Ewch i'r modiwl yn Blackboard a dewis **Tools a Panopto Content**
- Cliciwch **Add folder**



submit-turnitin-en  
2 months ago in prac-0265: J

- Rhowch deitl ar gyfer y ffolder, e.e. Perfformiad wedi'i Asesu neu Arholiad Llafar.
- Gwasgwch **Enter**
- Ewch i'r ffolder newydd rydych wedi'i chreu
- Ewch i **Settings** a chlicio ar y symbol yma 
- Dewiswch **Share**
- Newidiwch y maes **Who has access** i **Specific people**
- Gwasgwch y symbol  i ddileu defnyddwyr o'r rhestr o bobl sydd â mynediad
- Ychwanegwch enwau defnyddwyr PA, dewiswch **View** a **Send and save changes** a chaewch y ffenestr.

- I greu recordiad newydd yn y ffolder, ewch i'r ffolder, cliciwch **Create** a dewis **Record a new session**.

#### CREU FOLDER ASESU DRWY PANOPTO

- Ewch i <https://abercast.aber.ac.uk> a **Sign in using Blackboard**
- Rhowch eich enw defnyddiwr PA a'ch cyfrinair
- Ehangwch **Browse** ar yr ochr chwith a **My Folders**
- Chwiliwch am y ffolder y dymunwch ychwanegu'r ffolder Aseu ati, cliciwch ar y dde a dewis **New Subfolder**
- Rhowch enw i'r ffolder, a dad-dicio **Inherit permissions from the parent folder**
- Cliciwch **Create Folder**
- Ychwanegwch ddefnyddwyr penodol at y ffolder. Dim ond y rheiny y byddwch yn eu dewis fydd yn gallu cael mynediad ati

I greu recordiad newydd yn y ffolder, ewch i'r ffolder a chlicio **Create** a dewis **Record a new session**.

#### SUT MAE RECORDIO ASESAD YN BLACKBOARD?

Ar ôl i chi greu ffolder asesu, gallwch recordio asesiad yn Blackboard. I wneud hyn:

- Mewngofnodwch i Blackboard, ewch i'r modiwl perthnasol a dewis **Tools** a **Panopto Content**
- Cliciwch mewn i'r ffolder asesu
- Dewiswch **Create** a **Record a new session**